# TAIR TAITH YN NHREFDRAETH SIR BENFRO




PLANED




## BYWYD GWYLLT YR ARFORDIR A'R MYNYDD-DIR

**Blodau -** lili wen fach, cennin Pedr gwyllt, briallu, eithin, tegeirianau, gludlys (coch, arfor, cyffredin), botwm crys, bacse'r brain, clustog fair, garlleg gwyllt, sanau'r gwcw, clatsh y cŵn, gwlith yr haul, malws, gwyddfid, llysiau'r afu, clychau'r grug, grug ysgub, grug croesddail, eithin y gorllewin.

**Adar** - pibydd coesgoch, gylfinir & adar rhydio gaeaf eraill; hwyaid gaeaf, e.e., corhwyad, wiwell, hwyaden lygad aur, hwyaden fagu fraith; glas-y-dorlan, crychydd, gwylanod, gwylan y graig, mulfran, pioden fôr; clochdar y cerrig, llinos, cynffonwen; cigfran, ehedydd, boda, curyll coch, hebog; crëyr bach copog prin, brân goesgoch & barcud coch.

**Ieir Bach yr Haf** - iâr fach dramor, iâr fach amryliw, iâr fach lygadog, mantell goch, glesyn bach.

**Mamaliaid** - cadno, mochyn daear, gwiwer lwyd, cwningen, ysgyfarnog, morlo llwyd Gogledd yr Iwerydd, llamhidydd yr harbwr, dyfrgi.

**Cynhaeaf yr hydref** - eirin ysgawen, llusi duon bach, eirin criafol, mwyar duon, eirin duon bach, cnau cyll, eirin gwyllt, eirin drain gwyn, afalau'r bwci.



***Gwylan y graig***

## CERDDED O AMGYLCH TREFDRAETH

Tair taith gylchynol. Mae'r daith fyrraf o fewn y dref ac ar hyd wyneb cerdded hawdd. Mae angen esgidiau cerdded da ar gyfer y ddwy arall ac fe all fod yn fwdlyd mewn tywydd gwlyb. Mae angen Arolwg Ordnans Explorer OL35 neu Landranger 145 ar gyfer teithiau cerdded B & C.

**Taith A O Amgylch Y Dref. Maes Parcio Heol Hir, trwy'r dref ac yn ôl. 3m/5cm. 2.5 awr.** Ar y cyfan yn wastad ar hyd ffyrdd, feidrioedd a llwybrau cerdded heb unrhyw lethrau serth. Does dim angen esgidiau cerdded.

**Taith B Taith Arfordirol. Maes Parcio Heol Hir, Feidr y Felin, Hill House, Ffald y Gwartheg, Hendre, Aber Rhigian, Parrog, Maes Parcio Heol Hir. 4.6 m/7.5 cm. 3 awr.** Mae yna 6 sticil (cyfleuster i gŵn ar bob sticil), 4 clwyd, 4 pontgerdded, grisiau serth yn Aber Rhigian. Gall fod yn fwdlyd yng nghyffiniau Hendre. Taith fyrrach (yn osgoi'r grisiau) i'w gweld ar y map. Cyfanswm esgyniadau a disgyniadau 1140tr/342m.

**Taith C Taith Fynydd. Maes Parcio Heol Hir, Feidr y Felin, Hill House, Carn Ffoi, Bedd Morris, Sychbant, Dolrannog Isaf, Maes Parcio Heol Hir. 8.5 m/13.7 cm. 5 awr.** 2 sticil (dim cyfleuster cŵn), 6 chlwyd, 1 croesfan nant. Cyfanswm esgyniadau a disgyniadau 2572tr/1770m. Y daith yn darparu cymysgedd o olygfeydd o rostiroedd a dyffrynnoedd a cheir golygfeydd ysblennydd o Garn Ffoi. Taith arall dros gopa Carn Ingli (1159 tr/347m) yn cynnig golygfeydd panoramig, ond rhaid troedio dros greigiau a mannau llawer mwy serth; caniatewch ¾ awr ychwanegol; 2 sticil a 3 clwyd yn fwy.


**Cyfleusterau yn Nhrefdraeth**

Siopau, lluniaeth, banc, swyddfa bost, canolfan iechyd, meysydd parcio, llety, gwybodaeth, toiledau a maes parcio.

## MANNAU O DDIDDORDEB

Cafodd Trefdraeth ei chorffori'n fwrdeistref Normanaidd tua dechrau'r 13eg ganrif. Mae'r Cwrt Lît yn dal i gyfarfod ac yn cymeradwyo pwy ddylai Barwniaeth Cemaes ei benodi'n faer y dref. Cynhelir seremoni Cerdded y Ffiniau bob mis Awst.

**1. Capel Methodist Tabernacle -** codwyd yn 1815 pan dorrodd y Methodistiaid yn rhydd o'r eglwys sefydledig; roedd bythynnod y Banc, gan gynnwys y Ganolfan Wybodaeth i Ymwelwyr, yn rhan o'r stablau.



***6ed-7fed Maenhir***

**2. Yr Hen Gastell** - safle caer bosib o'r Oes Haearn & yn ddiweddarach mot & beili o bridd. Roedd 88 o fwrgeiswyr yn Heol Hir yn 1434.

**3. Odyn galch** i'w gweld ar draws yr afon, ger safle Cwarter Morfa (rhan dlawd o'r dref) yn dyddio o'r 16eg ganrif ac adeiladwyd llongau yno yn y 18eg ganrif.

**4. Pont Haearn** - yn dyddio nôl mor bell â'r 13eg ganrif; pan gafodd y bont ei dymchwel yn y 16eg ganrif, gwnaed croesfan ar draws rhes o gerrig ar ochr ddwyreiniol y bont.

**5. Carreg Coetan Arthur** - Claddfa Neolithig (cromlech), codwyd 3500 CC, yn cyfoesi â chludiant posib cerrig gleision y Preseli i Gôr y Cewri.

**6.** Safle **Ysgol Fwrdd -** agorwyd yn 1874; caewyd yn 1993; nawr yn hostel ieuenctid a chanolfan eco a busnes.

**7. Capel Ebenezer -** Capel yr Annibynwyr a godwyd ar gyfer 750 o addolwyr.

**8. Capel yr Eglwys** - codwyd yn 1799 a'i ddefnyddio gan Fethodistiaid; gwasanaeth plygain yn cael ei gynnal yno o hyd yn oriau mân bore Nadolig.

**9. Eglwys y Santes Fair** - cafodd eglwys wreiddiol y 7ed ganrif ei chysegru i Gurig Sant; ailgodwyd gan y Normaniaid yn gynnar yn y 13eg ganrif a'i hailenwi'n Santes Fair; adnewyddwyd yn sylweddol rhwng 1878-1879; sylwer ar y maen hir ger y drws gorllewinol yn dyddio o'r 6ed-7ed ganrif.

**10. Sgwâr y Coleg** - plac i goffáu safle ysgol gylchynol Madam Bevan a sefydlwyd yn 1809.

*Castell Trefdraeth*



**11. Castell Trefdraeth** - codwyd gan arglwyddi Normanaidd y Mers ym Marwniaeth Cemaes; dinistriwyd ddwywaith gan Llywelyn ap Iorwerth & Llewelyn ap Gruffydd; ymosodiad gan Owain Glyndŵr; addaswyd yn breswylfa breifat yn y 19eg ganrif.

**12. Melin y Castell** - Melin ŷd y Mers, yn cael ei gyrru gan ddŵr o ffos y castell; **Pont Henrietta Mair** yn coffáu gwraig Syr Thomas Davies Lloyd; arysgrifen 'Y gwir yn erbyn y byd' sydd hefyd yn wireb o eiddo Gorsedd yr Eisteddfod Genedlaethol.

**13. Pwll Bedyddio Feidr y Felin** - defnyddiwyd gan Gapel Bethlehem gerllaw.

**14 & 15**. Ffatrïoedd gwlân a melinau 16eg ganrif.


**16. Capel Bethlehem -** 'Capel y Bont' oherwydd ei fod mor agos i'r bont sy'n croesi nant y felin; codwyd ar gyfer 600 o addolwyr.

**17. Crochenwaith Trefdraeth -** bragty o'r 16eg ganrif; yn ddiweddarach yn ganolfan amaethyddol gydweithredol.


**18. Parrog** - safle pentref pysgota tan ddatblygiadau masnachol yn y 18eg ganrif; allforio ysgadan, gwlân a llechi; mewnforio glo, cwlwm a chalch; tai'n dyddio o ddatblygiad yn y 19eg ganrif fel ardal ymddeol & chyrchfan i ymwelwyr.

**19. Muriau llechi a cherrig sych y cei -** codwyd yn gynnar yn y 19eg ganrif; o leiaf 5 warws (nawr yn gartref i'r **Clwb Cychod**) & 3 odyn galch wedi eu codi yn y 18eg ganrif; odyn galch ddwbl mewn cyflwr da & bwthyn llosgwr calch yn dal yno.

*Clwb Cychod Trefdraeth*



*Ffald Wartheg*



**20. Ffald Wartheg** - ffald hanesyddol ar gyfer anifeiliaid strae yr arferid eu rhyddhau ar ôl derbyn tâl.

**21. Hen Orsaf Bad Achub** - agorwyd 1884; rhoddwyd y gorau i'w defnyddio o fewn 20 mlynedd oherwydd y llifwaddod ar hyd yr afon.

**22. Carn Ffoi** - caer fynydd Oes yr Haearn & chylchoedd cabanau.

**23. Bedd Morris** - Maen hir o'r Oes Efydd a ffin y plwyf.

**24. Planhigfa Penlan** - enghraifft o goetir conifferaidd yn cael ei adfer yn rhostir.

**25. Cwm Gwaun** - enghraifft benodol o sianel rhewlif dŵr tawdd Oes yr Ia; trigolion lleol yn dal i ddathlu'r flwyddyn newydd yn ôl y calendr Julian.

**26. Carn Ingli** - 'Mynydd yr Engyl', bu Brynach Sant yma; lleoliad nofelau hanesyddol `Angel Mountain`; golygfa eang. Caer o'r Oes Haearn (800BC - 56AD) gydag amddiffynfeydd sylweddol a gweddillion tai crwn.

*Carn Ingli*



## Y Côd Cefn Gwlad

### *Parchwch - Diogelwch - Mwynhewch*

- Byddwch yn ddiogel - cynlluniwch o flaen llaw a dilynwch unrhyw arwyddion
- Gadewch glwydi ac eiddo fel rydych chi’n eu cael nhw
- Ewch â’ch sbwriel gartref, a gofalwch warchod bywyd gwyllt
- Cadwch eich ci dan reolaeth dynn
- Byddwch yn ystyriol o bobl eraill

Cynllun gan Waterfront Graphics
Darluniau gan: Kris Jones
PLANED © 2005